

Rhaglen Gyfalaf Bwyd a Diod

ADRAN 1. PA GAM GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EI YSTYRIED A PHAM?

(Sylwer y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

Mae ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru ar y cynllun at y dyfodol ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (BDBDC), yn nodi ein gweledigaeth i adeiladu ar y twf hwn a mynd ati ymhellach i ddatblygu [bri byd-eang Cymru fel Cenedl Fwyd](#). Fel rhan allweddol o hyn, mae'r cynllun yn amlygu ein hymrwymiad i barhau â'n hymdrechion i Arloesi yn y sector bwyd a diodydd ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Mae AMRC Cymru yn bartneriaeth rymus rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, asiantaethau twf a menter a chanolfan ymchwil a datblygu sydd ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes gweithgynhyrchu uwch. Mae'r tîm ymchwil sy'n gweithredu AMRC Cymru yn rhan o Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield ac yn aelod o'r Ganolfan Gatapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (HVM), consortiwm o ganolfannau ymchwil prosesu a gweithgynhyrchu a gefnogir gan Innovate UK.

Y nod yw helpu cymuned weithgynhyrchu'r rhanbarth i gael mynediad at dechnolegau uwch a fydd yn ysgogi gwelliannau mewn cynhyrchiant, perfformiad ac ansawdd. Mae ein gallu i dynnu ar dalent ymchwil a datblygu brofedig AMRC Prifysgol Sheffield a'r Ganolfan Gatapwlt HVM ac iddi saith aelod, yn rhoi cryfder mewn truch ar unwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei huchelgais i wneud Gogledd Cymru'n uwchganolbwynt gweithgynhyrchu uwch seiliedig ar arloesi.

Fel cyfleuster ymchwil a datblygu sydd ar flaen y gad, bydd AMRC Cymru yn cael ei lywio gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant. Bydd yn darparu llwyfan arloesi agored sy'n hygyrch i'r holl weithgynhyrchwyr ar gyfer Cymru gyfan.

Mae cyflawni rhaglen arloesi mewn offer cyfalaf AMRC yn gyson â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*, yn enwedig mewn perthynas â 'Ffyniannus a Diogel' o ran cefnogi'r economi, busnesau a swyddi, yn ogystal â'r ymrwymiad i feithrin perthnasoedd newydd ar gyfer masnach a diwydiant. Mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn sefydlu bwyd fel sector sylfaenol yn economi Cymru ac fe wnaeth ailddatgan ymrwymiadau i fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi masnach gyda'r DU a gweddill y byd. Mae'r ymgynghoriad cyfredol ar *Strategaeth Ryngwladol* newydd yn nodi ymrwymiadau i godi proffil Cymru'n rhyngwladol a chynyddu ein hallforion a rhoi anogaeth ar gyfer mewnffuddsoddi.

Ar y cyfan, bydd rhaglen arloesi cyfalaf AMRC yn cyfrannu at Gymru Ffyniannus, Cymru gydnherth, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – nodau yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r pum ffordd o weithio, gan gynnwys:

Hirdymor

Mae Brexit yn creu her sylweddol ac mae ganddo'r potensial i darfu i raddau enfawr, yn enwedig ar y sector bwyd sylfaen yng Nghymru o ystyried y canlynol:

- Bod sector bwyd a diod Cymru wedi'i integreiddio'n helaeth â chadwyni cyflenwi'r DU a rhai rhyngwladol ac na ellir ei ynysu rhag newidiadau macro i'r amgylchedd masnachu.
- Bod tua chwarter llafurlu'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yn ddinasyddion yr UE nad ydynt yn hanu o'r DU.
- Bod 73% o allforion bwyd a diod Cymru yn ôl gwerth yn rhai i'r Undeb Ewropeaidd.
- Y gallai cytundebau masnach gyda'r UE a gwledydd eraill fygwth neu addasu deinameg allforio / mewnforio, cyflwyno costau gwahanol sy'n deillio o dariffau ac o ffynonellau eraill, ac effeithio ar safonau i ddefnyddwyr.

O ystyried y cyd-destun gwleidyddol cyfredol hwn, bydd AMRC yn dod yn bwysicach byth i ddarparu llwyfan Arloesi proffil-uchel i godi proffil rhyngwladol Cymru a mynd ati'n rhagweithiol i farchnata ein gweithgarwch arloesi mewn bwyd a diod o ansawdd i'r byd a gellir ei ddefnyddio i gyflawni ystod o fesurau mewn modd cadarnhaol i ddiogelu'r diwydiant yng Nghymru at y dyfodol i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd i'r diwydiant o ganlyniad i Brexit.

Bydd AMRC yn cynnal ymarfer caffael cystadleuol wrth brynu'r offer perthnasol a bydd yn ymlynu wrth yr Egwyddor Cynaliadwyedd trwy hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod sylfaen i wella lefelau cyfoeth a llesiant ar gyfer y tymor hir, a darparu negeseuon allweddol a mathau ymarferol o gymorth yn yr oes ar ôl Brexit.

Atal

Bydd offer cyfalaf AMRC yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud ag atal materion wedi hen galedu sy'n wynebu'r sector bwyd a diodydd, a bydd hefyd yn arddangos datblygiadau newydd mewn perthynas ag arloesi mewn bwyd a thechnoleg bwyd, gan gynnwys cysylltiadau â Phrosiect Helix, gan helpu i hyfforddi a chreu cwmnïau newydd yn y sector, ochr yn ochr â rhaglenni cydnerthedd busnes eraill, megis 'Tuag at genedl fwyd fyd-eang yng Nghymru' sy'n rhoi anogaeth ar gyfer cydweithio rhyngwladol ac yn estyn y cymorth sydd ar gael gydag arloesi (a ariennir â Chyllid Pontio o'r UE) i atal rhai o'r heriau uniongyrchol a gyflwynir gan ein hymadawiad â'r UE.

Disgwylir y bydd nifer y busnesau dros y tair blynedd nesaf a fydd yn cael mynediad at yr offer yn fwy na 150 o fusnesau. Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd i'r eithaf, gan gynnwys y camau canlynol gan AMRC:

- defnyddio goleuadau ynni-effeithlon, megis LED, i leihau ei ôl troed carbon i'r eithaf;
- gweithredu polisi dim gwastraff i safleoedd tirlenwi;

- defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy lle y bo'n bosibl; a
- bod â'r nifer priodol o finiau i ailgylchu'r holl fwyd, cardbord, deunydd ailgylchu cymysg a gwydr fel y bo'n briodol ac yn hyfyw yn economaidd.

Integreiddio

Mae integreiddio'n rhan allweddol o wariant cyfalaf AMRC o ystyried ei ffocws ar ddatblygu gweithgarwch arloesi newydd gan fusnesau a'i gyswllt rhwng busnesau yng Nghymru yn ogystal â phrynwyr yn y DU ac yn rhyngwladol; yn ogystal â darparu llwyfan proffil-uchel integredig sy'n arddangos ein cynnyrch/busnesau bwyd a diod arloesol mwyaf cain; yn ogystal â datblygiadau newydd ym maes technoleg, yn y byd academaidd, ac mewn sgiliau ac arloesi.

Cydweithio

Mae cydweithio'n greiddiol i gyflawni'r defnydd o offer cyfalaf AMRC, gan weithio mewn partneriaeth gyda diwydiant, gan gynnwys Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (BDBDC), busnesau unigol sy'n cyfranogi yn y digwyddiadau, partneriaid cyflawni, ein Canolfannau Rhagoriaeth Bwyd (Arloesi Bwyd Cymru), prifysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill (mewn ffocws helics triphlyg) i fynd ati'n effeithiol i ddarparu gwasanaeth arloesi sy'n cael effaith fawr.

Bydd partneriaethau allweddol eraill yn bodoli gyda'r Rhwydweithiau Clwstwr Bwyd a Diod, gyda'r bwriad o roi diwedd ar arwahanrwydd busnesau a chyfranwyr eraill, a chysylltu cadwyni cyflenwi i ysgogi gweithgarwch arloesi, hybu arfer gorau, goresgyn rhwystrau o ran gwybodaeth a rhoi anogaeth i rannu adnoddau, a byddwn yn ceisio arddangos hyn yn ystod y flwyddyn nesaf, i feithrin cyfleoedd cydweithredol pellach. Ar hyn o bryd mae'r Rhwydwaith Clwstwr yn grwpio busnesau ar sail y Clwstwr Datblygu Diodydd, y Clwb Allforio, Clwstwr Bwyd Môr Cymru, Bwydydd Da Cymru, y Clwstwr Busnesau Effaith Uchel a NutriWales. Mae hwn yn ddull arloesol yng Nghymru i gefnogi busnesau cyfrifol, trwy ddatblygu cadwyni cyflenwi, tueddiadau defnyddwyr a thrwy fodolau busnes cynaliadwy sy'n diogelu adnoddau naturiol Cymru.

Byddwn hefyd yn ceisio defnyddio offer cyfalaf AMRC i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd cydweithredol rhyngwladol, gan gynnwys er enghraifft gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys y Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewropeaidd (EIT Food) a phrosiectau Ardal yr Iwerydd/Gogledd-Orllewin Ewrop Interreg, sydd wedi'u bwriadu i roi anogaeth ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau i roi cymorth i ddatblygu ein priod ddiwydiannau bwyd a diodydd.

Cynnwys

Bydd Grŵp Llywio allanol, a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith yr holl bartneriaid allweddol, yn cael ei sefydlu hefyd i helpu i gynllunio/cyflawni gwariant cyfalaf AMRC ar gyfer 2020, gan gynnwys cynrychiolaeth o BDBDC, Arloesi Bwyd Cymru, partneriaid cyflawni allweddol ac adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru.

Yn unol â gofynion o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg, bydd y Bwrdd Ardal Leol yn sicrhau bod unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys.

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon yr **holl** Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@gov.wales

Datblygwyd y prosiect i gyflawni digwyddiad rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMRC gan roi sylw dyladwy i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Datgelodd ein hymarfer casglu tystiolaeth yn ystod 2019 (cyn datblygu ein hymgyngoriad ar gynlluniau ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru) y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol i lesiant plant a phobl ifanc sy'n deillio o fesurau i gefnogi'r sector Sylfaen Bwyd a Diod. Mae ein busnesau wedi'u gwreiddio mewn economïau lleol ledled Cymru ac yn cynnig y cyfle i danategu'r agenda yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a gwella lefelau cyfoeth yn deg dros y tymor hir.

Fe wnaeth canlyniadau ein gweithgarwch ymgysylltu amlygu pryder go iawn hefyd o ble y mae'r genhedlaeth nesaf o weithwyr yn y diwydiant bwyd a diod yn dod. Mae argaeledd llafur gyda'r sgiliau cywir yn fater creiddiol i BBaChau sy'n tyfu, gan bwysleisio pwysigrwydd rhaglenni sy'n denu diddordeb ymhlith pobl ifanc mewn cyfleoedd gyrfaol o fewn y sector. Felly bydd buddsoddi mewn arloesi yn ARMC yn datblygu i hyrwyddo ac arddangos y llu o gyfleoedd ar gyfer gyrfaeod yn y sector hwn sy'n tyfu a byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i gynnwys pobl ifanc yn y digwyddiad gweithgarwch arloesi ei hun (o bosibl ar ffurf ymweliad ag ysgol), fel modd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid/perchnogion busnes o fewn y sector.

Dangosodd gweithgarwch ymgysylltu fod diffyg dealltwriaeth cynyddol am y gadwyn fwyd a diffyg cysylltiad cynyddol â hi hefyd sy'n deillio o ymddygiadau cymdeithasol newidiol, cyfleustra a bwyta ac yfed wrth fynd. Er bod astudiaethau'n dangos bod 76% o ddefnyddwyr ledled y DU yn ceisio byw bywyd iach¹, mae ymgynghoriad

¹ **Winning for Wales & Winning in Wales: A consumer driven perspective** – Kantar World Panel – Mawrth 2017.

Llywodraeth Cymru 'Pwysau Iach: Cymru Iach' yn tynnu sylw pwysig at fater uniongyrchol iawn gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'i berthnasedd arbennig i Gymru. Yn y cyd-destun hwn, gall mentrau i helpu ein busnesau i addasu i'r galw ymhlith defnyddwyr gyfrannu at bolisi ehangach Llywodraeth Cymru i wella iechyd a llesiant plant hefyd.

Wrth i ni barhau i ddatblygu'r prosiect i gyflawni'r buddsoddiad, byddwn yn ymgysylltu ymhellach â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc, yn enwedig o ran datblygu unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â rhaglenni.

Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Bydd meithrin a hybu twf yn y sector bwyd a diod yn cyfrannu at y nodau yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i greu economi sy'n tyfu, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol. Yn y ffordd yma, bydd ein camau gweithredu i gefnogi'r sector yn cefnogi **Erthygl 27** yn CCUHP i blant fod â hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Bydd ymyriadau i helpu i greu busnesau bwyd a diod llwyddiannus, y gellir eu hamlygu yn AMRC Cymru, yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i gyfleoedd gwell mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Bydd hyn yn tanategu'r nodau yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i fod â 'swyddi gwell yn nes at adref' yn y diwydiant, ac felly'n cyfrannu'n anuniongyrchol at wella amgylchiadau plant trwy helpu i gryfhau'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi holi am farn busnesau'n flaenorol trwy ddwy gynhadledd sgiliau, a gynhaliwyd tuag at ddiwedd 2017 ac yn gynnar yn 2018. Dim ond 7% o gwmnïau ddywedodd eu bod yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt yn awr (45 o ymatebion) ac ni ddywedodd yr un cwmni eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol (47 o ymatebion)². Bydd rhaglen arloesi AMRC yn ceisio codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa a hyfforddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod trwy Gyrfaoedd Blasus Cymru, a bydd yn meithrin ymgysylltiad rhwng busnesau a darparwyr addysg trwy'r Adduned Sgiliau. Yn y ffordd yma, bydd y digwyddiad yn cyffwrdd ar **Erthygl 29** yn CCUHP ar gyfer addysg i ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn llawn.

Yng Nghymru, ystyrir bod tua chwarter y plant (27.4%) 4-5 mlwydd oed dros bwysau neu'n ordew. Caiff strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â mater gordewdra yng Nghymru ei nodi yn 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ffurfiol rhwng 17 Ionawr 2019 a 12 Ebrill 2019. Bydd ein cymorth i arloesi'n cynorthwyo'r sector bwyd a diod i gyflawni'r strategaeth gordewdra o ran annog busnesau i ailffurfio cynnyrch trwy roi mwy o gymorth trwy rwydwaith Arloesi Bwyd Cymru. Trwy'r gwaith hwn disgwylir y bydd y digwyddiad yn cyfrannu at **Erthygl 24** CCUHP i blant fod â hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddynt gadw'n iach.

² **Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru – Gofynion Llafur yn y Dyfodol 2017-2025**, Brookdale Consulting 2017.